Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Pecyn Hyfforddi Cyfathrebu Partneriaethau Bwyd: Dysgu i adrodd eich stori

**Rhan 1:**
Brandio

**Rhan 2:**
Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Pecyn Hyfforddiant Cyfathrebu Partneriaethau Bwyd: Mynegai


| Tudalen | Cynnwys |
|---|---|
| 3 & 4 | Cyflwyniad i Bartneriaethau Bwyd |
| 5 | Rhan 1: Brandio |
| 6 | Cyflwyniad i Frandio |
| 7 | Diffinio eich Partneriaeth |
| 8 | Diben y Brand |
| 9 | Gweledigaeth y Brand |
| 10 | Cenhadaeth y Brand |
| 11 a 12 | Gwerthoedd y Brand |
| 13 | Personoliaeth y Brand |
| 14 a 15 | Cynulleidfaoedd / Rhanddeiliaid |
| 16 | Creu Llyfr Brand |

| Tudalen | Cynnwys |
|---|---|
| 17 | Rhan 2: Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| 18 | Adrodd eich Stori: Negeseuon |
| 19 | Adrodd eich Stori: Offer a Thactegau |
| 20 | Beth sydd gennych eisoes |
| 21 a 22 | Egwyddorion Cyfathrebu: Y 9 elfen hanfodol |
| 23, 24, 25 a 26 | Ysgrifennu Datganiad i'r Wasg |
| 27 | Beth sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen dempled ategol |
| 28 | Gwybodaeth gyswllt |


**Rydym wedi creu dogfen Word ategol hefyd sy'n rhoi awgrymiadau, templedi ac adnoddau pellach i'ch helpu i ddechrau arni.**

# Cyflwyniad i Bartneriaethau Bwyd

**Synnwyr Bwyd Cymru:**
Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio gyda chymunedau, sefydliadau, llunwyr polisïau a'r Llywodraeth ledled Cymru i greu system bwyd a ffermio sy'n llesol i bobl ac i'r blaned. Rydym am ddylanwadu ac effeithio ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod bwyd, ffermio a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a llewyrchus. I ddarllen mwy am Synnwyr Bwyd Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am y tîm, ein Bwrdd Cynghori, ein gwerthoedd a'n cenhadaeth, cliciwch yma. Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gronfa yn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ac mae'n cael ei chynnal gan dîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

**Synnwyr Bwyd Cymru a'r Mudiad Bwyd Da:**
Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn parhau i ddatblygu a chynnal Mudiad Bwyd Da yng Nghymru drwy gyflenwi a chefnogi nifer o raglenni sy'n gysylltiedig â bwyd. Yn sail i'r holl waith hwn mae dyhead i ddatblygu capasiti, arweinyddiaeth, hyder ac ymdeimlad o le mewn cymunedau ledled Cymru. Elfen allweddol o hyn yw datblygiad Partneriaethau Bwyd Traws-sector drwy'r dull Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sydd wedi'u hybu gan gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu Partneriaethau Bwyd newydd. Mae'r Partneriaethau Bwyd sy'n datblygu yn sgîl y cyllid hwn yn dod yn rhan allweddol o'r Mudiad Bwyd Da ehangach hwn, gan hybu arloesedd ac arfer gorau ym mhob agwedd o fwyd iach a chynaliadwy. Mae'n bosibl y bydd Partneriaethau Bwyd eisiau dod yn aelodau o'r rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy wrth i'w gwaith ddatblygu.

**Partneriaethau Bwyd:**
Mae Partneriaeth Fwyd yn grŵp traws-sector sy'n cynnwys awdurdod lleol, cyrff y sector cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector, busnesau a sefydliadau academaidd, sy'n defnyddio bwyd fel dull o gyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol. Nod y bartneriaeth yw datblygu gweledigaeth, strategaeth a chynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer gwneud bwyd iach a chynaliadwy a diffinio nodweddion lle mae pobl yn byw a gweithredu ar y cyd ar draws ystod eang o faterion bwyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cefnogaeth ariannol ar gyfer datblygu partneriaethau traws-sector ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r cyllid yn helpu partneriaethau aml-asiantaeth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd drwy gydlynu gweithgarwch sy'n seiliedig ar fwyd. Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi bod yn cefnogi partneriaethau bwyd i nodi partneriaid, datblygu gwybodaeth leol a mynd i'r afael ag angen lleol mewn ffordd strategol, gydlynus sy'n cynyddu effeithiolrwydd prosiectau i'r eithaf a sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu ar gyfer yr ardaloedd â'r angen mwyaf.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi gwneud cyfraniad allweddol hefyd wrth sefydlu a datblygu partneriaethau bwyd fel rhan o'i waith yn arwain ar y rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru. Rydym ni'n gyffrous iawn o gael cefnogi Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid sy'n cymryd rhan (Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn ogystal â rhanddeiliaid ymroddedig eraill, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol, elusennau, busnesau bwyd, manwerthwyr, tyfwyr a ffermwyr) wrth i'r cyllid gael ei fuddsoddi mewn systemau a phrosiectau lleol.

# Cyflwyniad i Bartneriaethau Bwyd

**Lleoedd Bwyd Cynaliadwy:**
Mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn rhaglen bartneriaeth sy'n cael ei harwain gan Gymdeithas y Pridd, Bwyd o Bwys a Sustain: y gynghrair ar gyfer bwyd a ffermio gwell. Mae'n cael ei hariannu gan Sefydliad Esmée Fairbairn Foundation a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yw un o'r mudiadau cymdeithasol sy'n datblygu gyflymaf yn y DU. Mae eu rhwydwaith yn dod â phartneriaethau bwyd arloesol ynghyd o drefi, dinasoedd, bwrdeistrefi, ardaloedd a siroedd ledled y DU sy'n ysgogi arloesedd ac arfer gorau ar bob agwedd o fwyd iach a chynaliadwy. Drwy bŵer partneriaethau, mae Lleodd Bwyd Cynaliadwy yn ceisio sicrhau bod bwyd iach a chynaliadwy yn nodwedd ddiffiniol o ble mae pobl yn byw. Gallwch ddarllen mwy am Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yma. I ddod yn aelod o'r rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, mae'n rhaid i chi allu dangos tystiolaeth bod y canlynol ar waith gennych:

- Partneriaeth traws-sector sefydledig gyda chylch gorchwyl clir
- Tystiolaeth bod eich partneriaeth wedi cwrdd yn rheolaidd am o leiaf 6 mis, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd
- Unigolyn arweiniol a enwir sy'n fodlon i aelodau eraill gysylltu â hwy
- Trosolwg o'r System Fwyd
- Cynllun Gwaith Partneriaeth Fwyd sy'n cwmpasu'r 6 mis nesaf

Bydd y Pecyn Offer Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn eich helpu ar ddechrau eich taith – mae'r pecyn offer ar gael yma. Bydd Synnwyr Bwyd Cymru yn gallu eich cynghori ar Aelodaeth a'ch helpu drwy'r broses.

Synnwyr Bwyd Cymru yw partner cenedlaethol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru ac mae ganddynt uchelgais i weld partneriaeth fwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gan greu rhwydwaith a fyddai'n sail ar gyfer datblygu'r weledigaeth, y seilwaith a'r gweithredoedd sydd eu hangen i sicrhau bod system fwyd Cymru yn addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Gallwch ddarllen mwy am sur mae Synnwyr Bwyd Cymru yn helpu i gyflenwi Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru yma a gwylio fideo sy'n esbonio mwy yma.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru'n cefnogi naw aelod presennol Cymru – Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro, Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy, Bwyd RCT, Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent Partneriaeth Bwyd Gogledd Powys, Bwyd Sir Gâr Food yn Sir Gaerfyrddin, Bwyd Abertawe yn Abertawe a Phartneriaeth Bwyd Torfaen. Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn annog ardaloedd a chymunedau ledled Cymru i gymryd rhan a helpu i arwain y ffordd i sefydlu a datblygu seilwaith sy'n seiliedig ar le, a chyfrannu at ddatblygiad 'mudiad bwyd da' a strategaethau bwyd cymunedol ehangach a fydd o fudd i iechyd, yr economi, cynaliadwyedd a ffyniant cymdeithasol cymunedau ledled Cymru.

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Partneriaethau Bwyd:
# Dysgu i adrodd eich stori

## Rhan 1: Brandio



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

**Cyflwyniad i frandio:**

Mae partneriaethau bwyd yn wych!  Maent yn cysylltu pobl, sefydliadau ac achosion.  Maent wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau a gallant siarad yn uniongyrchol gyda phawb sy'n gysylltiedig â thyfu, cynhyrchu, dosbarthu, coginio a bwyta bwyd.  Ond gall fod yn anodd eu hegluro i bobl sy'n newydd i'r ffordd newydd o weithio yma.  Maent yn gweithio ac yn gweithredu'n wahanol ym mhob awdurdod lleol ac weithiau mae'n anodd eu hesbonio.

Yn hytrach nac ystyried hyn fel her; gallwch ei ystyried fel cyfle – cyfle i adrodd stori eich partneriaeth fwyd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.  Mae'n gyfle i feddwl sut yr ydych yn diffinio eich partneriaeth fwyd – yr hyn sy'n ei wneud yn arbennig.


Er mwyn deall **Pwynt Gwerthu Unigryw** (USP) eich partneriaeth fwyd, mae angen i chi feddwl am eich brand – eich diben, eich gweledigaeth, eich cenhadaeth a'ch gwerthoedd.  Bydd hyn yn helpu i roi llais clir ac unigryw er mwyn cyfathrebu gyda rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol.  Bydd hefyd yn eich helpu i ddatblygu eich hunaniaeth a sicrhau cysondeb yn y ffordd yr ydych yn trafod eich partneriaeth fwyd.

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

Yn ystod yr adran gyntaf hon rydym yn mynd i'ch helpu i **ddiffinio** eich partneriaeth fwyd.

Wrth i ni wneud cynnydd, byddwn yn eich helpu i ateb rhai cwestiynau allweddol a fydd yn rhoi dealltwriaeth well i chi o sut yr hoffech bortreadu eich partneriaeth fwyd a'r ffordd y mae eraill yn eich gweld.



**Diben** – pam eich bod yn bodoli

**Gweledigaeth** – beth ydych chi eisiau ei gyflawni

**Cenhadaeth** – sut yr ydych yn mynd i'w gyflawni

**Gwerthoedd** – yr hyn rydych yn sefyll drosto a'r ffordd rydych yn ymddwyn

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

**Diben y Brand:** Pam eich bod yn bodoli a beth rydych yn ei wneud

Diben eich brand yw'r rheswm dros eich bodolaeth; yr hyn rydych yn sefyll drosto a beth rydych yn ei wneud.  Dylai fod yn ddilys, yn glir ac yn uniongyrchol ac yn sail i'ch brand.  Bydd y diben hwn yn llywio eich gweledigaeth, eich cenhadaeth a'ch gwerthoedd – bydd yn eu llywio a'u tywys.

Er mwyn diffinio diben brand eich partneriaeth fwyd, dechreuwch drwy ateb y tri chwestiwn sylfaenol hyn:

1. Beth ydych chi'n ei wneud yn dda?
2. Beth yw eich angerdd?
3. Pa wahaniaeth allwch chi ei wneud?



Ar ôl i chi ddiffinio eich diben, gallwch ddechrau meddwl am yr hyn rydych eisiau ei gyflawni – dyna eich gweledigaeth.

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

**Gweledigaeth y Brand:**

Beth yw eich uchelgais yn y pen draw? Beth ydych chi eisiau ei gyflawni yn y 12 mis nesaf?

Mae Datganiad Gweledigaeth yn ddatganiad neu'n fwriad un neu ddwy frawddeg o hyd sy'n disgrifio'r nod clir ac ysbrydoledig a ddymunir yn y tymor hwy. Mae'n diffinio'r hyn rydych yn gweithio tuag ato yn y pen draw.

Enghreifftiau:

**Oxfam**: Ein gweledigaeth yw byd heb dlodi. Rydym eisiau byd lle mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u trin yn gyfartal, mwynhau eu hawliau fel dinasyddion llawn a'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Ikea**: Creu bywyd bob dydd gwell i lawer o bobl

**WWF**: Ein gweledigaeth yw creu dyfodol lle mae pobl yn byw mewn undod â natur

**Patagonia**: Creu'r cynnyrch gorau, peidio achosi niwed diangen a defnyddio busnes i ysbrydoli

**Y Sefydliad Bwyd**: Ein gweledigaeth yw system fwyd cynaliadwy sy'n sicrhau iechyd a llesiant i bawb.

**Waze**: Helpu pobl i gydweithio i wella ansawdd gyrru bob dydd i bawb

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

**Cenhadaeth y Brand:**

Cenhadaeth eich brand yw sut y byddwch yn cyflawni gweledigaeth eich brand.  Os mai gweledigaeth eich brand yw eich cyrchfan, yna cenhadaeth eich brand yw'r cerrig camu ar hyd y ffordd.

Beth ydych chi'n ei wneud?

Sut ydych chi'n ei wneud?

Ar gyfer pwy ydych chi'n ei wneud?

Sut mae'n eu helpu?

Enghreifftiau o ddatganiadau cenhadaeth brandiau:

**Synnwyr Bwyd Cymru:** Dylanwadu ac effeithio ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru er mwyn sicrhau bod bwyd, ffermio a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a llewyrchus.

**WWF:** Diogelu natur a lleihau'r prif fygythiadau i amrywiaeth bywyd ar y Ddaear.

**Trek:** Cynorthwyo i wella ein planed drwy feicio

**TED:** Lledaenu syniadau

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

**Gwerthoedd y Brand:**

Beth ydych chi'n credu ynddo a'r ffordd mae eich partneriaeth yn gweithredu ac yn ymddwyn. Mae'r gwerthoedd hyn yn ategu'r holl weithgareddau cyfathrebu ac maent yn cynnig rhai 'bachau' defnyddiol ar gyfer ymgyrchoedd.

Bydd eich gwerthoedd yn darparu arweiniad, cyfeiriad a chefnogaeth i bawb yn y sefydliad a'r bobl rydych yn gweithio gyda hwy; yr egwyddorion hyn sy'n llywio'r holl weithgareddau sy'n cael eu cynnal.

**Enghraifft - IKEA:**
Gostyngeiddrwydd a grym ewyllys.
Arwain drwy esiampl.
Mentro i fod yn wahanol.
Agosatrwydd a brwdfrydedd.
Ymwybyddiaeth o gost.
Dyhead cyson i adnewyddu.
Derbyn a dirprwyo cyfrifoldeb.

Allwch chi feddwl am 5-10 ansoddair gyda brawddegau cysylltiedig sy'n disgrifio eich gwerthoedd chi?

Rydym wedi cynnwys gwerthoedd Synnwyr Bwyd Cymru ar y dudalen nesaf fel enghraifft

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

**Gwerthoedd Brand: Gwerthoedd Synnwyr Bwyd Cymru**

Drwy ein gweithgareddau ac eiriolaeth, mae Synnwyr Bwyd Cymru yn hyrwyddo:

### Cydweithio

Meithrin perthynas waith a strategol gadarnhaol gyda chyfranogwyr ac asiantau eraill, yng Nghymru ac ar draws y DU, gan ein galluogi i helpu i lunio a chyd-greu system fwyd fwy cynaliadwy a llewyrchus i'n cenedl gan ddefnyddio dull cyfannol – gan ailadrodd pwysigrwydd ystyried y system fwyd fel un system gyfan.

### Cynhwysiant

Dod â chymunedau o ddiddordeb ynghyd o bob rhan o Gymru; cael gwared ar rwystrau a stigma, a mynd ati i annog cyfranogiad yn ein prosiectau, ein rhaglenni a'n hymgyrchoedd.

### Uniondeb

Hyrwyddo dyfodol teg, cyfiawn a llewyrchus i Gymru a'i phobl; yn benderfynol o sicrhau bod gan bawb o bob oed yng Nghymru fynediad urddasol at fwyd iach o safon.

### Ystwythder

Bod yn ymatebol i newidiadau mewn cymdeithas yn ogystal ag unrhyw newidiadau i feysydd polisi y mae bwyd a systemau bwyd yn berthnasol iddynt; bod yn chwim ac yn barod i weithredu i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

### Symbyliad

Ysbrydoli a dylanwadu ar bobl a chymunedau ar draws Cymru i ymgysylltu â bwyd; codi ymwybyddiaeth o faterion bwyd a hyrwyddo gweithgareddau arloesol sy'n gysylltiedig â bwyd i symbylu a thyfu Mudiad Bwyd Da yng Nghymru.

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

**Personoliaeth y Brand:**

Mae personoliaeth nodedig yn sefydlu naws neu 'ffordd o siarad' brand sy'n helpu i ddatblygu perthynas gyda'r bobl y mae eich brand yn ceisio cysylltu â hwy.

Allwch chi feddwl am tua 15-20 ansoddair sy'n disgrifio eich partneriaeth chi?

**Gweithgarwch:**

Pe byddai eich brand yn anifail, a fyddai'n llew, yn eryr neu'n gi neu rhyw fath arall o anifail?
Gallai hyn swnio'n ddibwys ond bydd yr ymarfer hwn yn eich helpu i ddelweddu eich brand a'ch helpu i esbonio pam fod un anifail penodol yn adlewyrchu eich gwaith a'i werthoedd yn well nac unrhyw un arall.

Dyma rai enghreifftiau:

- Dadansoddol a meddylgar fel tylluan?
- Annibynnol, uchelgeisiol a chryf fel llew?

Eich tro chi!

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

**Cynulleidfaoedd / Rhanddeiliaid**

Yn hytrach nac ystyried dosbarthiad demograffig yn unig, gallech geisio deall eich cynulleidfa/cynulleidfaoedd neu randdeiliaid targed fel pobl â chwaeth, hoffterau, credoau a dyheadau personol.

Gallech geisio rhannu eich rhanddeiliaid yn gymunedau o ddiddordeb – pobl sy'n rhannu diddordeb neu angerdd cyffredin.

- Pwy ydyn nhw?
- Beth maen nhw'n ei wneud?
- Beth yw eu gwerthoedd?
- Sut mae eu diwrnod nhw?
- Beth yw eu diddordebau?
- Beth yw eu hoedran?
- Oes ganddyn nhw blant?
- Ble maen nhw'n byw?
- Ble maen nhw'n gweithio?

# Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd


## Cynulleidfaoedd / Rhanddeiliaid - Gweithgarwch:

Creu cronfa ddata gynhwysfawr sy'n grwpio unigolion / sefydliadau / gwasanaethau cyhoeddus / elusennau ac yn y blaen yn gategorïau penodol y gellir eu hadnabod yn rhwydd, sy'n eich galluogi i flaenoriaethu ymgysylltiad â chymunedau penodol o ddiddordeb.

Bydd eich gwaith mapio yn eich helpu i.....

- Nodi rhanddeiliaid
- Categoreiddio rhanddeiliaid a'ch helpu i ystyried sut i'w grwpio:
  - Mewnol ac Allanol?
  - Cymunedau o ddiddordeb?
  - Daearyddiaeth?
  - Sectorau?
- Blaenoriaethu – Matrics Pŵer a Dylanwad*
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu – sut, beth a pha mor aml ydych chi eisiau cyfathrebu? Dylech ystyried y math o ddull cyfathrebu (newyddlen; cyfarfodydd; cyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen); naws, amlder ac yn y blaen (gan fwydo i mewn i gynllun Cyfathrebu ehangach)
- Efallai y byddwch yn dymuno ystyried gwerthuso dulliau targedu ac effeithlonrwydd eich dulliau cyfathrebu mewn cysylltiad â'ch grwpiau rhanddeiliaid

***Matrics Pŵer a Dylanwad**



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adnabod ein Gilydd

## Creu Llyfr Brand

Mae llyfr brand yn cyfleu hanfod brand mewn un ddogfen – diben, gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, personoliaeth a chynulleidfa darged.  Gall eich helpu i ddiffinio eich brand; gellir ei ddefnyddio i'w rannu gyda'ch partneriaid a gall sicrhau cysondeb yn eich dulliau cyfathrebu mewnol ac allanol.  Os ydych yn bwriadu creu logo neu wefan, mae llyfr brand yn ddogfen ddefnyddiol iawn i chi ei rhannu gyda dylunwyr a datblygwyr hefyd.  Gallwch ei chreu fel dogfen word a bydd yn ddogfen ddefnyddiol wrth weithio ar unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'ch brand. **Mae templed wedi'i gynnwys yn yr atodiad sy'n cyd-fynd â'r pecyn offer hwn.**   Byddwch eisiau cynnwys:

- Cyflwyniad / Cyd-destun
- Diben y Brand
- Gweledigaeth y Brand
- Cenhadaeth y Brand
- Gwerthoedd y Brand
- Personoliaeth y Brand
- Cynulleidfa Darged
- Gwybodaeth ar gyfer, neu enghraifft o driniaeth Brand – hunaniaeth / edrychiad a theimlad, gan gynnwys:
    - Logo
    - Ffont
    - Palet lliw
    - Gwefan
    - Delweddau
    - Cyd-destun fideo
    - Edrychiad / teimlad y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys asedau
    - Penawdau llythyrau
    - Templedi datganiadau i'r wasg
    - Templedi adroddiadau ac yn y blaen



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy: Dysgu i adrodd eich stori

## Rhan 2:

Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adrodd eich Stori

Nawr eich bod yn deall pwy ydych chi – eich gwerthoedd, eich gweledigaeth, eich personoliaeth – rydych mewn sefyllfa gryfach o lawer i ddechrau meddwl am eich negeseuon.

Gallech ddechrau ystyried creu Cynllun Cyfathrebu syml. **Mae templed wedi'i gynnwys yn yr atodiad sy'n cyd-fynd â'r pecyn offer hwn.** Ar ei ffurf sylfaenol, byddai'n mynd i'r afael â'r canlynol:



- Beth ydych chi eisiau ei ddweud? = **Negeseuon Allweddol / Naratif**
- I bwy? = **Cynulleidfa**
- Pryd? = **Amseriad** – dogfen excel syml; o fis i fis
- Pa mor aml? = **Amlder**
- Sut? = **Sianeli ac Offer**
- A beth ydych chi eisiau i'r darn o gyfathrebu hwn ei wneud? = **Effaith**

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Adrodd eich Stori

**Offer a thactegau:**

- Datblygu gwefan (os byddwch yn gwneud hyn, cofiwch greu briff clir a gweithio'n agos gyda'r datblygwr ar strwythur safle sy'n gweithio i chi – **mae templed wedi'i gynnwys yn yr atodiad sy'n cyd-fynd â'r pecyn offer hwn**)
- Cyfryngau Cymdeithasol – meddyliwch pa blatfformau fyddai'n addas ar gyfer (a) eich gwaith (b) eich cynulleidfa – **mae canllaw defnyddiol wedi'i gynnwys yn yr atodiad sy'n cyd-fynd â'r pecyn offer hwn**
- Newyddlenni – meddyliwch beth yr ydych eisiau ei ddweud, pa mor aml a phwy yw'r derbynwyr
- Dogfennau e.e. Adroddiad Blynyddol – offeryn defnyddiol i'w rannu gyda grwpiau llywio / cynnal neu sefydliadau partner
- Asedau Digidol e.e. delweddau (hollbwysig ar gyfer gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol); cynnwys fideo, Podlediadau
- Asedau cyfathrebu ychwanegol e.e. datganiadau i'r wasg; gwybodaeth gefndir; dogfennau esboniadol
- Atodol e.e. Llyfrynnau / taflenni / posteri / baneri codi – meddyliwch a oes gwir angen i chi greu'r rhain
- Defnyddio eich rhanddeiliaid / grŵp llywio a'r arbenigedd Cyfathrebu a allai fod gan eu sefydliadau yn fewnol

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Pecyn offer cyfathrebu – beth sydd gennych eisoes?



## Mewnol:

- Defnyddio eich sefydliad cynnal / aelodau eich grŵp llywio / partneriaid i helpu i'w ddosbarthu
- Defnyddio eu rhwydweithiau e.e. newyddlenni; cyfryngau cymdeithasol
- Mewnrwydi
- Sgriniau mewnol e.e. meddygfeydd / ysbytai / adeiladau'r cyngor
- Hefyd, allech chi ddyrannu rhywfaint o gyllid prosiect i gefnogi eich dulliau cyfathrebu?

## Allanol:

- Datganiadau i'r wasg – y wasg / gwefannau / dylanwadwyr / cylchgronau / cyhoeddiadau diddordeb arbennig
- Astudiaethau achos sy'n cynnwys gwaith ysbrydoledig
- Cysylltiadau'r cyfryngau – Teledu / Radio
- Sain - podlediadau
- Cyfryngau Cymdeithasol – Facebook; Twitter; Instagram
- Gwefan? Dadansoddeg
- Digwyddiadau cymunedol / cyfleoedd ymgysylltu
- Newyddlenni / Newyddlen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy / Newyddlen SBC
- Delweddu – hunaniaeth weledol gref
- Defnyddio'r Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru i greu cynnwys / ymgyrchoedd
- Defnyddio arwyr lleol fel llysgenhadon?

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Egwyddorion Cyfathrebu: Y 9 Elfen Hanfodol

Byddwch yn **Glir** – peidiwch â gorgymhlethu'r negeseuon gyda gormod o elfennau / onglau. Ystyriwch eich defnydd o iaith

Byddwch yn **Gywir** – gwirio sillafiad; gwirio gramadeg; gofyn i rywun arall brawfddarllen. Hefyd dylech ystyried amseriad eich neges – priodoldeb.

Gwnewch yn siwr bod y neges yn **Gyflawn** – gwnewch yn siwr bod eich cyfathrebu yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen – a chynnwys cais i weithredu – dywedwch wrth y darllenydd beth yr ydych eisiau iddyn nhw ei wneud e.e. I ddarganfod mwy; cliciwch yma ac yn y blaen

Byddwch yn **Gryno** – peidiwch â defnyddio 6 brawddeg i ddweud rhywbeth y gallech ei gyfleu mewn 2!

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Egwyddorion Cyfathrebu: Y 9 Elfen Hanfodol

Byddwch yn **Gyson** – dangoswch gysondeb yn eich negeseuon

Byddwch yn **Ystyrlon** – gwnewch yn siŵr bod eich darn / cyfathrebu yn llifo'n dda – bod eich pwyntiau'n arwain ymlaen i'w gilydd yn ddi-dor a bod eich brawddegau'n cysylltu

Byddwch yn **Ystyriol** – ystyriwch eich cynulleidfa – safbwyntiau / demograffeg / oedran ac yn y blaen


Byddwch yn **Bendant** – dangoswch eich bod yn credu yn yr hyn rydych yn ei ddweud – ei gyfleu – byddwch yn glir

Byddwch yn **Gwrtais** – ystyriwch eich tôn

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Ysgrifennu datganiad i'r wasg:

## Strwythur sylfaenol




Elfennau eraill i'w hystyried:

- Ystyriwch eich cynulleidfa – ar gyfer pwy ydych chi'n ysgrifennu?
- Ystyriwch y 9 elfen hanfodol
- Meddyliwch am bennawd effeithiol / bachog
- At bwy y byddwch yn ei anfon?
- Pryd y byddwch yn ei anfon?
- Darpariaeth barod / nodiadau i olygyddion

# Cofiwch gynnwys:

- Logo
- Dyddiad Rhyddhau
- Pennawd
- Is-bennawd (os bydd angen)
- Corff
- Nodiadau i Olygyddion – gan gynnwys manylion cysylltu a 'darpariaeth barod' amdanom ni
- Unrhyw ddelweddau / cynnwys fideo sydd gennych i ategu eich stori

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Beth nesaf?

At bwy y byddwch yn ei anfon?

- Gwnewch restr o gysylltiadau – gan gynnwys partneriaid yn ogystal â chysylltiadau yn y wasg / cyfryngau lleol; safleoedd lleol iawn; unrhyw ddylanwadwyr / cyhoeddiadau arbenigol perthnasol ac yn y blaen
- Datblygu perthnasoedd – pwy yw eich gohebwyr lleol? Dod i wybod pwy ydyn nhw a beth yw eu diddordebau
- Ei gyhoeddi ar eich sianelau eich hun – gwefan / Facebook / Twitter
- Ystyried pryd y byddwch yn rhyddhau'r darn – a yw'n cyd-fynd â gweithgarwch cenedlaethol / rhyngwladol ehangach? A allech chi ddefnyddio diwrnod ymwybyddiaeth fel bachyn?

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Rhowch gynnig arni……

## Creu datganiad i'r wasg:

- Meddyliwch am gyhoeddiad / digwyddiad / stori sy'n gysylltiedig â'ch partneriaeth
- Meddyliwch am eich cynulleidfa – pwy ydych chi eisiau ei hysbysu
- Ystyriwch brif bwyntiau'r stori / newyddion – beth ydych chi eisiau ei ddweud?
- Meddyliwch am yr iaith i'w defnyddio
- Ydych chi eisiau ychwanegu dyfyniad?
- Beth yw eich cais i weithredu?
- Manylion cyswllt

## Cyhoeddi eich datganiad i'r wasg:

- Gwnewch restr o bwy yr ydych am ei anfon atynt – yn fewnol ac allanol
- Meddyliwch pryd y byddwch yn ei anfon
- A oes gennych chi ddelweddau / fideo / sain i'w hanfon gyda'r darn?

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Awgrymiadau, templedi ac adnoddau defnyddiol

**Ar ôl darllen drwy'r ddogfen hon, dylai fod gennych ddealltwriaeth well o'r hyn y mae angen i chi ei ystyried wrth sefydlu eich brand a beth i'w ystyried wrth adrodd eich stori. Rydym wedi creu dogfen Word ategol sy'n rhoi awgrymiadau, templedi ac adnoddau pellach i'ch helpu i ddechrau arni. Mae'n cynnwys:**

- Templed llyfr Brand
- Cynllun ac Amserlen Gyfathrebu
- Creu briff dylunio – beth i'w gynnwys
- Creu briff gwefan – beth i'w gynnwys
- Sut i ysgrifennu briff cynnwys fideo
- Sut i ysgrifennu briff ffotograffiaeth
- Pa blatfformau cyfryngau cymdeithasol i'w dewis a rhai syniadau defnyddiol ar sut i'w defnyddio
- Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid / Newyddlenni
- Defnyddio'r iaith Gymraeg
- Adnoddau Defnyddiol



Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

*Cysylltwch â mi!*

sian-elin.davies@wales.nhs.uk

@Foodsensewales

www.foodsensewales.org.uk